Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-10-11 : 7 Tachwedd 2011**

Ni wnaeth y Pwyllgor ystyried unrhyw offerynnau statudol.

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

**CLA43 – Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 14 Hydref 2011 ynghylch rhinweddau Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011.

**CLA31 – Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2011 a CLA32 – Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011**

Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 19 Hydref 2011, a oedd yn gofyn am hysbysu'r Pwyllgor yn ysgrifenedig os caiff pwerau o dan Erthygl 5 eu defnyddio eto yn y dyfodol. Roedd ymateb y Gweinidog yn awgrymu ei fod yn teimlo nad oedd angen ysgrifennu at y Pwyllgor ar wahân gan ei fod yn rhagweld y byddai'r mater yn destun ymgynghoriad ac, felly, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Oherwydd natur y pŵer hwn (ac o gofio nad oedd gan y Pwyllgor y gallu i chwilio drwy wefan y Llywodraeth am faterion fel hyn yn rheolaidd), cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Llywodraeth dynnu sylw'r Cynulliad at unrhyw ddefnydd yn y dyfodol. Gofynnwyd i Gadeirydd y Pwyllgor ysgrifennu at y Gweinidog eto yn gofyn iddo ailystyried.

**Diffyg fersiynau Cymraeg o Offerynnau Statudol a gaiff eu gwneud ar y cyd â Gweinidogion y DU**

Nododd y Pwyllgor lythyr gan Brif Weinidog Cymru ynghylch diffyg fersiynau Cymraeg o Offerynnau Statudol a gaiff eu gwneud ar y cyd â Gweinidogion y DU. Nododd y Pwyllgor ei bod yn ofynnol cyflwyno adroddiad ar offerynnau na chawsant eu gwneud yn Gymraeg.

Cytunodd y Pwyllgor nad oedd ymateb y Prif Weinidog yn gwbl ddi-fudd ond mai'r mater sylfaenol yw nad yw Senedd y DU yn craffu ar offerynnau statudol cyffredinol mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal trafodaeth â chyfoedion yn Senedd y DU i ystyried y posibilrwydd o lacio'r arfer hwn er mwyn caniatáu i offerynnau statudol gael eu gwneud yn ddwyieithog.

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Mr Richard Parry, Darllenydd mewn polisi cymdeithasol, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol a Gwleidyddol, Prifysgol Caeredin.

**Penderfyniad i gwrdd yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn i'r Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7 Tachwedd 2011**